

**CYNGOR SIR Y FFLINT  
RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**Hysbysiad o gynnig cyflwyno cyfyngiad 'Ysgol Cadwch yn Glir' ar ysgol gynradd  
gymunedol Cornist, Fflint**

RHODDIR RHYBUDD drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig cyflwyno cyfyngiad 'ysgol cadwch yn glir', hyd at 43 metr o hyd, ar FFORDD YR YSGOL, Y FFLINT, ar ochr de-orllewin a de-ddwyrain y ffordd ger mynediad ysgol gynradd gymunedol Cornist. Byddai cerbydau'n cael eu gwahardd rhag stopio ar y marciau melyn igam ogam, sy'n nodi'r cyfyngiad rhwng 8am a 5pm ddyddiau Llun i Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny.

**Rheswm dros y Cynnig:** Cafwyd cwynion am bobl yn parcio mewn ffordd sy'n peri rhwystr yn yr ardal o amgylch y fynedfa i Ysgol Gynradd Cornist, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae'r Cyngor felly'n bwriadu cyflwyno cyfyngiad parcio drwy osod marciau 'dim parcio, cadwch yn glir' ar y lôn. Bwriad hyn yw cadw'r lle y tu allan yr ysgol yn glir o gerbydau fel y gellir gweld plant yn well wrth iddyn nhw groesi'r ffordd.


Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, y Fflint, CH6 5BD a Cyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint CH7 6LG yn ystod oriau swyddfa.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig uchod at yr unigolyn isod i'r cyfeiriad isod (gan ddyfynnu cyfeirnod SJ/TRO/NGW) erbyn dydd Gwener 6 Mawrth 2020.



Stephen O Jones,  
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),  
Neuadd y Sir,  
Yr Wyddgrug,  
Sir y Fflint.  
CH7 6NR

14 Chwefror 2020



Steve Jones  
 Chief Officer (Streetscene and Transportation).  
 Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).  
 County Hall, Mold, CH7 6NF  
 Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY:  
NGW  
 CHECKED BY:  
CP  
 SCALE:  
1: NTS @ A3  
 NAT. GRID REF:  
323268  
372759

PRELIMINARY	APPROVAL	CONSTRUCTION
AMENDMENTS:		DATE

Cornist CP School  
 Ffordd Yr Ysgol, Flint  
 Proposed School Zig Zags 25560mm Long  
 (Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER HT/20/CSF 101 C1